



Dyddiad cyhoeddi: 21 Ebrill 2020

Glanhau Trenau

Diolch am eich cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar 6 Ebrill 2020. Gofynnoch am y wybodaeth ganlynol:

pa mor aml mae trenau'n cael eu glanhau a darparu manylion ar y dull a'r cynhyrchion a ddefnyddir i lanhau'r trenau?

Fel arfer, mae'n rhaid i Wasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru adrodd i Trafnidiaeth Cymru ar lefel glendid sy'n cael ei fesur drwy Adroddiad Ansawdd Gwasanaeth. Geiriad penodol y Gofynion Cytundeb Grant yw:

- (a) sicrhau bod natur ac amllder ei rhaglen wedi'i chynllunio ac ymatebol ar gyfer sicrhau bod trenau yn cael eu cyflwyno i safon resymol fel bod y cerbydau rheilffyrdd sy'n cael eu defnyddio ganddo wrth ddarparu Gwasanaethau Teithwyr yn cael eu cadw yn rhesymol lân, gyda stoc digonol o ddefnyddiau traul a heb fân ddiffygion;
- (b) defnyddio pob ymdrech resymol i sicrhau bod trenau'n cael eu cyflwyno i safon resymol drwy'r adeg o ran y cerbydau rheilffyrdd sy'n cael eu defnyddio ganddo wrth ddarparu Gwasanaethau Teithwyr.

Fodd bynnag, ers yr argyfwng COVID-19 mae glanhawyr yn gweithio ddydd a nos i sicrhau bod y trenau'n cael eu glanhau'n gyson, gan ddefnyddio'r cynhyrchion gorau sydd ar gael a chanolbwyntio ar bwyntiau cyswllt uchel. Mae ymdrechion yn cynnwys defnyddio cynhyrchion glanhau gwrthfeirysol gyda chyfnod diogelu saith niwrnod, a glanhau trenau'n drylwyr o leiaf bob 24 awr, a glanhau mannau cyffwrdd pwysig fel byrddau, handlenni ac unrhyw le lle gallai pobl roi eu dwylo yn rheolaidd.

Yn ystod y chwe wythnos diwethaf, mae glanhawyr ychwanegol wedi'u cyflogi i weithio'r shifftiau dydd a nos mewn depos trenau ledled rhwydwaith Cymru a'r Gororau, ynghyd â defnyddio glanweithyddion ychwanegol ar drenau. Mae'r timau glanhau hyn wedi derbyn y cyfarpar angenrheidiol i gadw'n ddiogel eu hunain.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â Trafnidiaeth Cymru.

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru